# Canllaw Dyslecsia

## Gwasanaeth Cynhwysiant Caerdydd

Chwefror 2022



UCHELGAIS PRIFDDINAS
CAPITAL AMBITION

CARDIFF
CAERDYDD

UCHELGAIS PRIFDDINAS CAPITAL AMBITION

| ADRAN | | Tudalen |
|---|---|---|
| 1 | Deddfwriaeth | 3 |
| 2 | Cyflwyniad | 3 |
| 3 | Amcanion y canllaw | 3 |
| 4 | Diffiniad o ddyslecsia | 4 |
| 5 | Camdybiaeth gyffredin am ddyslecsia | 5 |
| 6 | Pobl ddyslecsig gydadferol | 5 |
| 7 | Plant/pobl ifanc â Saesneg/Cymraeg fel iaith ychwanegol | 5 |
| 8 | Mynychder | 6 |
| 9 | Effeithiau eraill anawsterau llythrennedd (dyslecsia) | 6 |
| 10 | Y cwricwlwm newydd a'r cod anghenion dysgu ychwanegol i Gymru | 7 |
| 11 | Adnabod anawsterau llythrennedd (dyslecsia) | 7 |
| 12 | Beth ddylid ei asesu a sut? | 8 |
| 13 | Yr hyn y gall ysgolion ei wneud | 9 |
| 14 | Sut y gall gwasanaeth cynhwysiant Caerdydd helpu? | 10 |
| 15 | Beth yw cynnydd priodol? | 10 |
| 16 | Ymateb i adroddiadau preifat | 10 |
| 17 | Trefniadau hygyrchedd | 11 |
| 18 | Crynodeb | 12 |
| | Cyfeiriadaeth | 12 |

## 1. DEDDFWRIAETH

Y ddeddfwriaeth berthnasol yw Deddf Addysg 2001 (Pennod 33, Rhan 2, Adrannau 18 a 19) yn ogystal â Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.

## 2. CYFLWYNIAD

Datblygwyd y ddogfen hon gan Wasanaeth Seicoleg Addysg Caerdydd (GSA) mewn ymgynghoriad â'r Tîm Cymorth Dysgu (TCD). Mae'n nodi canllawiau Gwasanaeth Cynhwysiant Caerdydd ar adnabod, asesu, ymyrryd a monitro o ran plant a phobl ifanc sy'n profi Anawsterau Llythrennedd (dyslecsia). Ei nod yw rhoi arweiniad i weithwyr proffesiynol a rhieni ar y dulliau mwyaf cyfredol o gefnogi cyrhaeddiad a chynhwysiant plant a phobl ifanc sy'n profi Anawsterau Llythrennedd (dyslecsia).

## 3. AMCANION Y CANLLAW

- Codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o Anawsterau Llythrennedd (dyslecsia) ym mhob ysgol ledled Caerdydd.
- Sicrhau bod ysgolion, gweithwyr proffesiynol a rhieni/gofalwyr yn derbyn negeseuon cyson gan y Gwasanaeth Cynhwysiant.
- Sicrhau bod pryderon rhieni/gofalwyr am Anawsterau Llythrennedd (dyslecsia) yn cael eu cydnabod a'u datrys.
- Gwella arferion asesu ac ymyrryd fel bod gwahaniaethau dysgu disgybl yn cael eu hadnabod, a bod yr addysgu'n cael ei addasu'n briodol, cyn gynted â phosibl yng ngyrfa ysgol y disgybl, ac yn barhaus drwy gydol pob Cyfnod Allweddol.
- Amlinellu'r sylfaen dystiolaeth sy'n llywio'r polisi.





## 4. DIFFINIAD O DDYSLECSIA

Gellir cyfeirio at ddyslecsia fel anhawster dysgu penodol, er bod ymchwil wedi dangos nad yw o reidrwydd yn 'benodol' i faes penodol o wybyddiaeth neu ddysgu (Kaufman, 1994; Turner, 1997; Elliot, 1998). Gall dyslecsia ddigwydd ar draws ystod o lefelau gallu (Stanovich, 1994) ac, yn ogystal, gall fod gan blentyn/ person ifanc amrywiaeth o anawsterau dysgu yn ogystal â dyslecsia.

Mae Llywodraeth Cymru yn disgrifio dyslecsia fel anhawster dysgu sy'n effeithio'n bennaf ar y sgiliau dan sylw wrth ddarllen a sillafu geiriau yn gywir a rhugl (Llywodraeth Cymru 2015).

Canolbwyntia diffiniadau eraill, fel yr hyn a geir yn Adroddiad Rose (Rose, 2009), ar nodweddion cyffredin dyslecsia sy'n cefnogi ein dealltwriaeth:

- Ymhlith nodweddion cyffredin dyslecsia mae anawsterau o ran ymwybyddiaeth ffonolegol, cof geiriol a chyflymder prosesu geiriol.
- Mae dyslecsia yn digwydd ar draws yr ystod o alluoedd deallusol. Nid oes un proffil penodol o gryfderau ac anawsterau y mae angen eu hadnabod er mwyn cofnodi bod gan blentyn ddyslecsia.
- Mae'n well meddwl amdano fel continwwm, nid categori penodol a does dim terfynau clir.
- Mae'n bosibl y gwelir anawsterau ar y cyd o ran agweddau ar iaith, cydsymud echddygol, cyfrifo meddyliol, canolbwyntio a threfnu personol, ond nid yw'r rhain ar eu pennau eu hunain yn arwydd o ddyslecsia.
- Gallwch gael arwydd da o ran dwyster a chysondeb yr anawsterau dyslecsig drwy archwilio sut mae'r unigolyn yn ymateb i, neu wedi ymateb i, ymyriad â sail gadarn.

Mae Gwasanaeth Seicoleg Addysg Caerdydd yn mabwysiadu'r diffiniad canlynol:

Bydd Dyslecsia yn amlwg pan fo darllen yn rhugl ac yn gywir a/neu sillafu yn datblygu yn hynod anghyflawn/ gydag anhawster mawr. Canolbwyntia hyn ar ddysgu llythrennedd ar lefel y 'gair' ac yn golygu bod y broblem yn ddifrifol ac yn barhaol er bod cyfleoedd dysgu priodol. Mae'n cynnig y sail ar gyfer proses asesu fesul cam drwy addysgu.

Cymdeithas Seicolegol Prydain (CSP), 1999

Er i'r diffiniad hwn gael ei ysgrifennu gyntaf ym 1999, parhawn i'w ddefnyddio yng Nghaerdydd oherwydd;

- Fe'i hategir gan dystiolaeth ymchwil a argyhoedda;
- Mae'n canolbwyntio ar anawsterau a arsylwyd ac y gellir eu harsylwi;
- Nid wna unrhyw ragdybiaethau ynghylch achosiad;
- Mae'n seiliedig ar y dystiolaeth ymchwil nad oes angen unrhyw broffil prawf neu brawf penodol neu ddigonol ar gyfer adnabod dyslecsia;
- Mae'n seiliedig ar dystiolaeth ymchwil sy'n cadarnhau'r farn y gall dyslecsia ddigwydd mewn plant a phobl ifanc o bob gallu;
- Nid yw'n dibynnu ar nodi anghysondeb rhwng galluoedd plentyn/person ifanc mewn un maes a'i alluoedd mewn maes arall;
- Mae'n tynnu sylw'r oedolion sy'n gweithio gyda phlentyn/person ifanc at y posibilrwydd y gallai disgybl fod yn ddyslecsig deheuig, lle mae ef/hi wedi dysgu darllen a sillafu, ond wedi gwneud hynny gydag anhawster mawr.

Yng Ngwasanaeth Cynhwysiant Caerdydd, nid ydym yn defnyddio'r term anhawster dysgu penodol, ond yn hytrach, rydym yn arddel y term Anawsterau Llythrennedd (dyslecsia). Mae hyn yn adlewyrchu ein cred nad yw bodloni'r meini prawf ar gyfer dyslecsia yn ei gwneud yn ofynnol i berson ifanc gael proffil gwybyddol penodol na bod ag anghysondeb rhwng ei sgiliau llythrennedd a meysydd eraill o ran ei ddatblygiad.

## 5. CAMDYBIAETH GYFFREDIN AM DDYSLECSIA

Gall fod gan blant/pobl ifanc sy'n profi dyslecsia un, dim un neu gyfuniad o'r problemau hyn.

- Rhoi pethau mewn trefn
- Gwisgo
- Dwyn cyfarwyddiadau i gof
- Bod yn drefnus ac yn daclus
- Ffurfio llythrennau
- Canolbwyntio a gwrando
- Eistedd yn llonydd
- Gweld llythrennau/geiriau wedi'u hargraffu y ffordd gywir ar y dudalen
- Gwahaniaethu rhwng eu de a'u chwith

Mae rhai cyhoeddiadau a gwefannau sy'n cynnwys 'rhestrau gwirio' sy'n tynnu sylw at anawsterau tebyg i'r rhai a restrir uchod a gellir awgrymu bod athrawon a rhieni/gofalwyr yn cyfeirio at restrau gwirio o'r fath i adnabod dyslecsia. Fodd bynnag, mae angen bod yn ofalus iawn wrth fynd ar y trywydd hwnnw. Mae'n bwysig bod yn ymwybodol bod rhai plant/pobl ifanc sydd ag un neu gyfuniad o'r problemau hyn yn dysgu darllen a sillafu heb unrhyw anhawster.  Mae'n bosibl y bydd gan rai plant/pobl ifanc dyslecsig un neu'r cyfan o'r problemau hyn, ond nid oes gan rai plant/pobl ifanc ddyslecsig yr un ohonynt. Gall plant heb ddyslecsia hefyd fod ag un, dim un neu gyfuniad o'r anawsterau hyn. Nid yw'r problemau hyn, ar eu pennau eu hunain nac mewn unrhyw gyfuniad, yn arwydd o ddyslecsia.  Caiff plant/pobl ifanc sy'n profi dyslecsia eu hadnabod gyntaf gan eu bod yn methu magu sgiliau darllen geiriau a/neu sillafu er gwaethaf ymyrraeth briodol.

## 6. POBL DDYSLECSIG GYDADFEROL

Pan fydd plentyn/person ifanc yn dysgu darllen a sillafu, ond gydag anhawster mawr ac yn sgil llawer o ymdrech ychwanegol, gellir dweud ei fod yn 'cydadfer' am ei anawsterau. Mae sgiliau a ddysgwyd fel hyn, hyd yn oed os yn briodol i'w hoed wrth ei fesur ar brawf safonedig, yn aml yn meddu ar ddiffyg rhuglder gweddilliol. Gall fod yn anodd adnabod dyslecsig cydadferol oherwydd bod sgoriau darllen a sillafu sy'n briodol i'w hoed weithiau yn cuddio'r diffyg rhuglder sylfaenol hwn. Gall unrhyw ddiffyg rhuglder sylfaenol greu anawsterau i'r disgybl mewn Cyfnodau Allweddol diweddarach, wrth i ofynion y cwricwlwm gynyddu. Gall deall tarddiad a natur yr anawsterau helpu'r disgybl a'r athrawon i benderfynu ar y mathau o gymorth a allai helpu'r disgybl ar ei lefel bresennol ef/hi.

Dylai disgybl sydd wedi cael anawsterau cychwynnol wrth sefydlu ei sgiliau llythrennedd cynnar, ond sydd wedi gallu goresgyn ei anawsterau cynnar, fod â'r wybodaeth hon wedi'i nodi ar ei gofnod ysgol. Gall y wybodaeth hon helpu'r disgybl, ei rieni/gofalwyr, a'r athrawon i ddeall natur unrhyw anawsterau yn y dyfodol o ran dysgu sy'n digwydd mewn Cyfnodau Allweddol uwch pan fo'r Anawsterau Llythrennedd (dyslecsia) sylfaenol ynghudd, oherwydd y gall y sgiliau darllen a sillafu fod yn briodol i'w hoedran.

## 7. PLANT/POBL IFANC Â'R GYMRAEG/SAESNEG FEL IAITH YCHWANEGOL

Mae gan rai o'n plant/pobl ifanc mewn ysgolion alluoedd amrywiol yn y Gymraeg/Saesneg yn ogystal â'u hiaith/ieithoedd cartref.  O ran cael gafael ar lenyddiaeth a'i mwynhau, mae'n bosib fod rhai o'r plant/pobl ifanc hyn yn hyfedr neu'n llwyddo i ddysgu darllen yn llwyddiannus mewn ieithoedd heblaw'r Gymraeg neu'r Saesneg. Dylid annog a gwerthfawrogi hyn bob amser.  Dylai athrawon holi am brofiad a gallu darllen a sillafu fel rhan o'u proses a'u gweithdrefnau cadw cofnodion ar gyfer nodi anghenion addysgol ychwanegol. Mae angen olrhain cynnydd ar draws y cwricwlwm yn ofalus rhag ofn bod anawsterau nad ydynt yn gysylltiedig â dysgu Cymraeg/Saesneg yn unig. Mae gofyn ystyried addasiad emosiynol plant/pobl ifanc a'r hyn sy'n hysbys am eu profiadau bywyd yn eu hasesiad addysgol. Nid oes anghenion addysgol ychwanegol gan blant/pobl ifanc sydd ag ychydig iawn o brofiad o'r Saesneg yn sgil eu hangen i ddysgu Saesneg. Fodd bynnag, byddant yn elwa ar ac angen cymorth ychwanegol o ran ffoneg, arfer geiriau cyfan a gwaith ar lefel testun. Bydd profiadau ymarferol uniongyrchol sy'n annog mynediad i iaith, ynghyd â 'siarad iaith athro' strwythuredig â chefnogaeth weledol a bod llenyddiaeth ysgogol yn hygyrch, yn cefnogi eu cynnydd darllen a sillafu.

## 8. MYNYCHDER

Mae Llywodraeth Cymru (2012) yn argymell y dylid 'ystyried dyslecsia orau fel continwwm, nid fel categori penodol, ac nid oes unrhyw derfynau clir'. Felly, er mwyn gwneud diagnosis o'r anhawster, rhaid gosod 'terfyn ar newidyn parhaus'. (Elliott 2020, gan ddyfynnu Peterson & Pennington, 2015, t. 285).

Mewn ymchwil, mae mynychder yr achosion a gofnodwyd yn amrywio yn ôl y meini prawf a'r diffiniad a ddefnyddir. Mae ffigurau yn amrywio rhwng 4 – 8% (Rose, 2009), a 15 – 20% (The Dyslexia-SpLD Trust, 2009). Mae Snowling (2013) yn cyfeirio at gyfradd o rhwng 3 a 10%.

Gall lefelau mynychder amrywio yn ôl iaith, ac mae plant yn aml yn cael anawsterau ysgafnach wrth ddysgu darllen ieithoedd mwy cyson (Caravolas 2005). Er enghraifft, mae ymchwil yn dangos y gallai caffael darllen fod yn haws ac yn gynt yn y Gymraeg nag yn Saesneg (Ellis & Hooper, 2001; Spencer & Hanley, 2003, 2004) ac yn aml, gall plant â dyslecsia sy'n dysgu Cymraeg yn gyntaf ddangos anawsterau llythrennedd llai amlwg am fod y geiriau ysgrifenedig yn dilyn rheolau ynganu cyson ('orgraff reolaidd'). (Hanley, J.R., et al (2004), Ellis a Hooper (2002)). Fodd bynnag, gall disgyblion wedyn ddangos mwy o anawsterau dyslecsig pan gânt eu cyflwyno i'r Saesneg yng Nghyfnod Allweddol 2.

Mae seiliau genetig a biolegol clir i Anawsterau Llythrennedd (dyslecsia). Mae astudiaethau'n dangos gwahaniaethau yng ngweithrediad ymennydd y rhai ag anawsterau darllen sylweddol o gymharu â darllenwyr nodweddiadol. Dengys astudiaethau bod llawer o rieni plant y nodwyd bod Anawsterau Llythrennedd (dyslecsia) ganddynt hefyd ag anawsterau darllen eu hunain.

## 9. EFFEITHIAU ERAILL ANAWSTERAU LLYTHRENNEDD (DYSLECSIA)

Mae Llywodraeth Cymru (2012) yn cydnabod bod cysylltiad rhwng dyslecsia a hunan-barch isel, gan gyfeirio at ystod o astudiaethau, megis Humphrey (2002), a ganfu fod plant dyslecsig mewn ysgolion prif ffrwd yn ogystal ag mewn ysgolion ar gyfer plant ag anawsterau dysgu penodol yn nodi lefelau is o hunan-barch na'u cyfoedion nad ydynt yn ddyslecsig. Weithiau gall yr hunan-barch is hwn arwain at anawsterau emosiynol ac ymddygiadol i rai disgyblion (e.e., Lopes, 2007; Place, Wilson, Martin & Hulsmeier, 2000) a rhoi disgyblion mewn mwy o berygl o gael nifer o anawsterau seicogymdeithasol (Llywodraeth Cymru 2012).

Gall hefyd arwain at broblemau gyda darllen a deall a llai o brofiad darllen, a all lesteirio twf geirfa a gwybodaeth gefndir (Lyon, Shaywitz, & Shaywitz, 2003, t. 2).





## 10. Y CWRICWLWM NEWYDD A CHOD ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL CYMRU

Mae'r cwricwlwm newydd yn cynnwys chwe 'Maes Dysgu a Phrofiad (MDPh) y mae 'Ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu' yn un ohonynt. Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn pwysleisio bod 'cyfathrebu clir ac effeithiol drwy iaith lafar ac ysgrifenedig yn sgil bywyd pwysig'. Mae'n nodi 'y dylid rhoi cyfleoedd i ddysgwyr siarad ac ysgrifennu er mwyn bod yn effeithiol wrth iddynt ryngweithio, archwilio syniadau, mynegi safbwyntiau, gwybodaeth a dealltwriaeth ac adeiladu perthnasoedd.'

Mae Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru yn cynnwys yr egwyddor gyffredinol bod yn rhaid cefnogi dysgwyr i gymryd rhan mewn addysg brif ffrwd ac yn y Cwricwlwm Cenedlaethol mor llawn â phosibl lle bynnag y bo hynny'n ymarferol. Os nodir bod gan blentyn neu berson ifanc Angen Dysgu Ychwanegol (ADY) fel Anawsterau Llythrennedd (dyslecsia) ac nad yw'n gwneud cynnydd priodol, ceir disgwyliad y bydd staff yr ysgol yn creu Cynllun Datblygu Unigol (CDU) ar gyfer y disgybl. Dylai'r broses CDU fod yn gydweithrediad rhwng yr ysgol, y person ifanc a'i riant/gofalwr. Dylai CDU nodi cryfderau dysgwr, meysydd i'w gwella a rhwystrau i ddysgu. Dylai gynnwys amcanion tymor byr a thymor hir a dylid ei adolygu'n rheolaidd.

## 11. ADNABOD ANAWSTERAU LLYTHRENNEDD (DYSLECSIA)

Nid yw'n ofynnol i arbenigwr, fel Seicolegydd Addysg neu Athro Arbenigol, nodi Anawsterau Llythrennedd (dyslecsia). Mesur a chofnodi cynnydd darllen a sillafu geiriau plentyn/person ifanc dros amser (yn unol â diffiniad CSP (1999)), ynghlwm â rhaglenni cymorth ychwanegol, yw'r ffordd fwyaf ddibynadwy o ddweud a oes Anawsterau Llythrennedd (dyslecsia) gan blentyn/person ifanc .

Y pwynt i'w bwysleisio yw bod angen ystyried llawer o ffactorau wrth ddisgrifio anhawster dysgu plentyn/person ifanc fel Anawsterau Llythrennedd (dyslecsia), ac mae angen i ni fabwysiadu darlun cyfannol o'r plentyn/person ifanc. Ni ddylid ystyried un sgôr ar brawf darllen neu sgrinio ar wahân i'r holl ffactorau eraill.
Bydd angen ystyried a fydd y term yn ddefnyddiol i'r plentyn/person ifanc unigol
dan sylw. Mae rhai yn cael cysur o weld eu hanawsterau yn cael eu disgrifio fel hyn, i eraill gall ymddangos fel pe bai'n cyfyngu ar gyflawniadau a chymhelliant. Dylai gweithwyr proffesiynol yn ogystal â rhieni/gofalwyr fod yn ymwybodol o'r perygl posibl o greu disgwyliadau isel drwy ddefnyddio'r term 'dyslecsia'.

Mae angen adnabod Anawsterau Llythrennedd (dyslecsia) cyn gynted â phosibl. Po gynharaf yr adnabyddir anghenion disgybl, gellir rhoi'r cymorth a'r ymyriadau priodol cynharaf ar waith. Pan nad yw Anawsterau Llythrennedd (dyslecsia) yn cael eu hadnabod, gall y disgybl golli hunan-barch a chymhelliant, a gall hyn gael effaith andwyol ar ei les a'i ymddygiad emosiynol fel y disgrifiwyd yn flaenorol.

Dylid cydnabod a mynd i'r afael ag unrhyw bryderon a godir gan rieni/gofalwyr ynghylch cynnydd eu plentyn mewn unrhyw ran o fywyd yr ysgol yn brydlon ac yn adeiladol. Os oes gwahaniaeth barn am gynnydd y plentyn/person ifanc, cyfrifoldeb yr ysgol yw i gasglu tystiolaeth am berfformiad y plentyn/person ifanc a thrafod y canfyddiadau gyda'r rhieni/gofalwyr. Efallai yr hoffai staff yr ysgol wahodd Seicolegydd Addysg yr ysgol i gyfarfodydd o'r fath os teimlir bod hyn yn briodol.

## 12. BETH DDYLID EI ASESU A SUT?

Mae'r diffiniad o ddyslecsia (CSP, 1999) yn ei gwneud yn ofynnol gwerthuso tair agwedd drwy asesu:

- Bod y plentyn/person ifanc wedi dysgu darllen geiriau unigol yn gywir neu'n rhugl a/neu sillafu'n anghyflawn neu gydag anhawster mawr.
- Bod cyfleoedd dysgu priodol wedi, ac yn cael eu darparu. Gall rhwystrau i gyfleoedd dysgu o'r fath gynnwys ffactorau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol, namau ar y synhwyraidd nas adnabyddwyd ynghynt, a/neu darfu ar addysg.
- Dim ond yn sgil llawer o ymdrech/cyfarwyddyd ychwanegol y gwnaed y cynnydd hwnnw a bod yr anawsterau hynny wedi parhau serch hynny.

Nid oes un prawf/sgriniwr unigol ar gyfer Anawsterau Llythrennedd (dyslecsia) ac nid oes angen mesur o unrhyw anghysondeb rhwng deallusrwydd a sgiliau darllen. Mae'r model anghysondeb hwn wedi'i danseilio a'i annilysu gan ymchwil oherwydd bod tystiolaeth yn dangos, waeth beth fo'r lefel gallu cyffredinol, bod y rhai ag anawsterau darllen a sillafu amlwg yn perfformio'n wael ar dasgau megis datgodio (h.y., troi iaith ysgrifenedig yn iaith lafar), adnabod geiriau a sgiliau ffonolegol (Stanovich & Stanovich, 1997; Siegel, 1994; Stuebing et. al., 2002). At hynny, nid yw mesurau IQ yn darogan sut y bydd dysgwyr yn ymateb i ymyrraeth llythrennedd (Vellutino, Scanlon & Lyon, 2000) na'u canlyniadau hirdymor (Shaywitz, 1994). Mae dyslecsia'n digwydd ar draws pob lefel gallu (Stanovich, 1994) ac mae ymchwil wedi cefnogi'r syniad nad oes proffil gwybyddol penodol sy'n gallu gwahaniaethu'n ddibynadwy rhwng plant/pobl ifanc dyslecsig a rhai nad ydynt yn ddyslecsig (Kaufman, 1994; Turner, 1997; Elliot, 1998).

Mae asesu nad yw'n cyfeirio o gwbl at y cyd-destun dysgu a'r cynnydd dros amser yn rhoi darlun anghyflawn o anawsterau/anghenion plentyn/person ifanc. Mae hyn yn arbennig o wir pan fo anawsterau emosiynol yn atal plant/pobl ifanc rhag dysgu. Gall problemau emosiynol ddatblygu yn sgil oedi wrth gaffael sgiliau llythrennedd, a all waethygu'r anawsterau dysgu mewn ffordd gymhleth. Mae datblygu dealltwriaeth o feddyliau a phrofiadau emosiynol y plentyn/person ifanc yn ganolog i asesiad ystyrlon.



Dylid cynnal asesiad dros amser drwy ymyrraeth ac adolygiad parhaus. Dylid ystyried enghreifftiau o waith ysgol, adroddiadau, Cynlluniau Datblygu Unigol (CDUau) a data mewn ysgolion.
Mae hefyd yn berthnasol iawn i'r asesiad bod unrhyw ffactorau eraill a allai fod yn cyfrannu at yr
oedi yn y dysgu yn cael eu hystyried, er enghraifft, amhariad posibl ar y clyw neu'r golwg, presenoldeb gwael, tarfu ar addysg, neu anawsterau emosiynol neu gorfforol. Er mwyn bod yn ddefnyddiol, dylai pob asesiad arwain at gynlluniau gweithredu ymarferol sy'n hyrwyddo dysgu.

Mae'n bwysig casglu cymaint o wybodaeth â phosibl am anghenion y plentyn/person ifanc a daw hyn o amrywiaeth o ffynonellau. Gall gwaith uniongyrchol gyda'r plentyn/person ifanc gynnwys asesu:

- Gallu darllen a sillafu geiriau gan ddefnyddio’r profion dibynadwy, diweddaraf
- Gwybodaeth ffonig
- Ymwybyddiaeth ffonolegol
- Cof gweledol ar gyfer sillafiadau
- Diffyg rhuglder wedi ei nodi ym mherfformiad y disgybl, er enghraifft:
  - Ar gyfer darllen: cyflymder darllen araf, analluı i ddefnyddio mynegiant wrth ddarllen, diffyg mwynhad darllen.
  - Ar gyfer ysgrifennu: cyflymder ysgrifennu araf, cynnwys ysgrifennu nad yw'n adlewyrchu mynegiant llafar y disgybl.

Nid oes angen asesiad gwybyddol (prawf IQ) i benderfynu a oes gan ddisgybl Anawsterau Llythrennedd (dyslecsia) ai peidio. Nid yw asesiadau o'r fath yn ddibynadwy wrth ddweud wrthym a oes gan blentyn/person ifanc Anawsterau Llythrennedd (dyslecsia) ai peidio am eu bod yn mesur sgiliau gwahanol i'r rheini y byddwn yn dibynnu'n bennaf arnynt i ddysgu darllen a sillafu (Stanovich, 1994). Gall Seicolegydd Addysg weinyddu asesiad gwybyddol er mwyn cael rhagor o wybodaeth am gryfderau gwybyddol a gwendidau cymharol plentyn neu berson ifanc ond nid oes gofyniad nac angen i gynnal asesiad seicometrig.

Yn ogystal ag archwilio cyraeddiadau presennol y plentyn/person ifanc mewn llythrennedd, mae hefyd angen ystyried agweddau emosiynol a chymhellol ar weithredu gan gynnwys:

- Hyder y plentyn/person ifanc fel dysgwr.
- I ba raddau y mae'n teimlo y gall gymryd risgiau gyda'i ddysgu.
- Sut mae'n ymateb wrth 'wneud camgymeriad'.
- Sut mae'n ymateb i ganmoliaeth.

## 13. YR HYN Y GALL YSGOLION EI WNEUD

Bydd angen cymorth ychwanegol ar lawer o blant a phobl ifanc gyda'u dysgu ar ryw adeg yn eu gyrfa ysgol, ac nid yw hyn o reidrwydd yn golygu bod Anawsterau Llythrennedd (dyslecsia) ganddynt. Dylai pob ysgol gynnig cyfleoedd dysgu dosbarth cyfan o ansawdd uchel. Pan fyddant yn canfod bod angen mwy o gymorth ar ddysgwyr, dylent eu cynnwys mewn ymyriadau grŵp llai neu ymyriadau unigol.

Os byddwn yn sylwi ar blentyn/person ifanc yn cael trafferth gyda ffoneg, darllen geiriau a sillafu ac sy'n ymddangos nad oes diddordeb ganddo mewn llyfrau, dylem ddechrau drwy ofyn: Beth sy'n mynd i helpu'r plentyn/person ifanc hwn i ddarllen a sillafu'n effeithiol?

Os ydym am i blentyn/person ifanc sy'n profi Anawsterau Llythrennedd (dyslecsia) wneud cynnydd, mae angen i ni ofyn:

- Faint o gynnydd sydd wedi'i wneud yn ystod y chwe mis diwethaf?
- Pa mor dda y mae wedi ymateb i ymyrraeth?
- Beth sy'n helpu/llesteirio?
- Beth sydd ei angen yn ei raglen nawr er mwyn iddo/iddi allu cyrchu'r cwricwlwm yn yr ystafell ddosbarth?

Rhaid monitro effaith yr ymyriadau hyn yn ofalus a lle nad yw disgyblion yn gwneud y lefelau cynnydd disgwyliedig dylai ysgolion ofyn am gymorth a chyngor gan weithwyr proffesiynol allanol megis Seicolegwyr Addysg neu Athrawon Arbenigol.

## 14. SUT GALL GWASANAETH CYNHWYSIANT CAERDYDD HELPU?

Mae Gwasanaeth Cynhwysiant Caerdydd yn cynnig ystod o gymorth sy'n gysylltiedig ag atal, adnabod, asesu, ymyrryd a monitro Anawsterau Llythrennedd (dyslecsia) mewn ysgolion.

**Dull gweithredu ysgol gyfan**
Mae'r Gwasanaeth Cynhwysiant yn hyrwyddo datblygiad ymarfer ysgol gyfan effeithiol mewn ysgolion 'sy'n ystyriol o ddyslecsia' drwy roi cyngor a hyfforddiant. Mae'r Tîm Cymorth Dysgu (TCD) yn annog ysgolion i weithio tuag at 'Wobrau Ysgolion sy'n Ystyriol o Ddyslecsia' Caerdydd.

**Hyfforddiant**

- Mae hyfforddiant ar y cyd ar gael i gynorthwywyr Addysgu, Athrawon a Chydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol, ar gefnogi plant/pobl ifanc sy'n profi Anawsterau Llythrennedd (dyslecsia).
- Mae'r Tîm Cymorth Dysgu yng Nghaerdydd yn darparu hyfforddiant ar Sgiliau Llythrennedd Cynnar a 'Rhaglen Ymyrraeth Llythrennedd Caerdydd' ar gyfer Darllen ac Ysgrifennu yn ogystal â hyfforddiant ar gyfer ymyriadau cyhoeddedig, er enghraifft 'Sound Discovery', 'Rapid Readers' a 'Rainbow Readers'. Mae'r GSA yn darparu hyfforddiant ar ymyriadau eraill (e.e., Darllen Mewn Parau, Addysgu Manwl Gywir, Sillafu Ciw).
- Mae staff y gwasanaeth cynhwysiant hefyd yn darparu sesiynau i godi ymwybyddiaeth o Anawsterau Llythrennedd (dyslecsia) gyda grwpiau o rieni/gofalwyr a/neu lywodraethwyr ysgol.

**Ymyriadau Unigol**
Diben unrhyw asesiad ddylai fod i ddatblygu strategaethau ymyrryd a chefnogi priodol, nid dim ond i gadarnhau a yw plentyn/person ifanc yn profi Anawsterau Llythrennedd (dyslecsia). Ceir llawer o ymyriadau y profwyd eu bod o gymorth i gefnogi a gwella sgiliau llythrennedd plant/pobl ifanc. Y pwynt allweddol yw dewis yr ymyriad sydd fwyaf tebygol o gael effaith sylweddol ar y plentyn/person ifanc unigol dan sylw. Gwneir y penderfyniad hwn ar sail gwybodaeth asesu ac ymchwil cyfredol.

Gall y Gwasanaeth Cynhwysiant ddarparu:

- Asesiad unigol
- Cyngor ar ymyriadau a strategaethau effeithiol.
- Rhaglenni gwaith pwrpasol.
- Ymgynghoriad seicolegol gyda staff yr ysgol/ rhieni

## 15. BETH YW CYNNYDD PRIODOL?

Addysgu dosbarth cyfan: Dylai disgyblion fod yn gweithio'n fras ar ddisgwyliadau sy'n briodol o ran oed a gwneud blwyddyn o gynnydd bob blwyddyn o leiaf. Os ydynt tua blwyddyn y tu ôl i'r lefel ddisgwyliedig ar gyfer eu hoedran cronolegol, efallai y byddai'n briodol iddynt gael eu cefnogi drwy ymyriad grŵp bach.

Ymyrraeth grŵp bach ar sail tystiolaeth: Wrth gyrchu'r math hwn o ymyriad, dylai plant wneud cynnydd cyflymach. Byddai hyn fel arfer yn golygu dyblu'r cyfradd cynnydd disgwyliedig e.e. Cynnydd o 6 mis o ran darllen ar ddiwedd ymyriad 3 mis o hyd. Fodd bynnag, dylid ystyried ffactorau unigol eraill wrth asesu a yw'r ymyriad wedi bod yn llwyddiannus, er enghraifft anghenion sy'n cyd-ddigwydd (e.e., Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd neu Oedi Datblygiadol) ac ystyried a oedd yr ymyriad yn briodol ac yn cael ei ddarparu'n effeithiol.

Rhaglen unigol: Os nad yw plentyn yn gwneud cynnydd digonol mewn ymyriadau grŵp bach, efallai y bydd angen rhaglen waith fwy pwrpasol arno. Mewn ysgolion cynradd gellir cysylltu â'r Tîm Cymorth Dysgu am gymorth yn hyn o beth. Mewn ysgolion uwchradd bydd athro arbenigol penodol ar gyfer llythrennedd yn yr ysgol.

## 16. YMATEB I ADRODDIADAU PREIFAT

Gall rhieni/gofalwyr wneud cais am Seicolegydd Addysg preifat neu asesiad/adroddiad gan athrawon arbenigol a gall rhai meddygon teulu ddweud wrth rieni i ofyn am asesiad SA/athro arbenigol er mwyn cadarnhau Anawsterau Llythrennedd (dyslecsia). Mae'n bwysig nodi bod

rhai seicolegwyr preifat a chwmnïau y tu allan i Awdurdod Lleol Caerdydd yn cynnal asesiadau gwybyddol ac yn defnyddio'r model anghysondeb er mwyn adnabod dyslecsia. Fel y soniwyd eisoes, bwriwyd amheuaeth ar y model anghysondeb gan ymchwil ac nid oes angen asesiad gwybyddol i benderfynu a oes Anawsterau Llythrennedd (dyslecsia) gan ddisgybl . Mae Gwasanaeth Cynhwysiant Caerdydd yn cydnabod mai mesur cynnydd darllen a sillafu geiriau gan blentyn/person ifanc dros amser (yn unol â diffiniad CSP [1999], o ran rhaglenni cymorth ychwanegol, yw'r ffordd fwyaf ddibynadwy o ddweud a oes Anawsterau Llythrennedd (dyslecsia) gan blentyn/person ifanc.

Dylai fod gan ysgolion brosesau da ar waith gan ddefnyddio Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru ar gyfer adnabod, asesu a gweithredu i ddiwallu anghenion plant/pobl ifanc. Gellir hefyd ystyried cynnwys y GSA a'r Tîm Cymorth Dysgu os teimlir bod agweddau ar gynnydd plentyn/person ifanc yn sylweddol ac yn barhaus. Pan fydd adroddiad seicolegol preifat yn cael ei lunio ar blentyn/person ifanc unigol, dylai ysgolion geisio gweithredu'r argymhellion a awgrymir mor llawn â phosibl. Efallai yr hoffai'r ysgol ymgynghori â Seicolegydd Addysg yr ysgol am gyngor ynghylch argymhellion sydd wedi'u hawgrymu mewn adroddiad seicolegol preifat.

## 17. TREFNIADAU MYNEDIAD

Os yw disgybl sy'n profi Anawsterau Llythrennedd (dyslecsia) yn cael cymorth ar gyfer ei anawsterau llythrennedd yn yr ystafell ddosbarth, neu'n elwa o drefniadau mynediad gwahanol yn yr ystafell ddosbarth fel y gall gyrchu'r cwricwlwm a dangos ei wybodaeth a'i ddealltwriaeth, yna dylai addasiadau rhesymol sy'n adlewyrchu'r cymorth hwn fod ar gael mewn sefyllfaoedd asesu eraill.  Os nad dyma’r sefyllfa, ni fydd gwybodaeth sydd ar gael o'r asesiadau hyn yn adlewyrchiad cywir o wybodaeth bynciol y disgybl oherwydd bydd lefel ei ddarllen a/neu ei allu ysgrifennu yn cyfyngu ar yr hyn y mae’n gallu ei ddangos fel hyn. Dylai trefniadau mynediad fod yn berthnasol i bob arholiad ffurfiol lle bodlonir meini prawf cymhwyso ar gyfer trefniadau o'r fath, a bennir gan y Cyd-gyngor Cymwysterau.

Nod y Cyd-gyngor yw dileu'r rhwystrau i ddisgybl ag Anghenion Dysgu Ychwanegol fel ei fod ef/hi yn gallu cael mynediad at arholiadau cenedlaethol a dangos lefel ei gyrhaeddiad mewn modd nad yw wedi ei lesteirio gan lefel ei sgiliau darllen a/neu sillafu. Trefniadau fel darllenydd (person dynol neu feddalwedd darllen testun), ysgrifennydd (person dynol neu feddalwedd llais-i-destun), a defnyddio prosesydd geiriau gyda gwirydd sillafu wedi'i alluogi, yw rhai o'r opsiynau sydd ar gael i ddisgybl sy'n bodloni'r meini prawf a bennir gan y Cyd-gyngor Cymwysterau.

Caiff trefniadau mynediad y Cyd-gyngor eu diweddaru bob blwyddyn ym mis Medi, a gellir eu lawrlwytho o wefan y Cyd-gyngor Cymwysterau, www.jcq.org.uk. Cyfrifoldeb y Cydgysylltwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol ac athrawon pwnc ym mhob ysgol uwchradd yw bod yn gyfarwydd â'r trefniadau mynediad y mae gan ddisgybl sy'n mynychu eu hysgol yr hawl iddynt.

https://www.jcq.org.uk/cynswyddfa/mynedi ad- trefniadau-ac-ystyriaeth-arbennig/



## 18. CRYNODEB

Mae'r ddogfen hon wedi nodi canllawiau gan Wasanaeth Cynhwysiant Caerdydd ar adnabod, asesu, cefnogi a monitro, anghenion plant a phobl ifanc sy'n profi Anawsterau Llythrennedd (dyslecsia). Nod y ddogfen yw codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o Anawsterau Llythrennedd (dyslecsia) a sicrhau bod ysgolion, yn ogystal â rhieni/gofalwyr, yn derbyn negeseuon cyson gan y Gwasanaeth Cynhwysiant ynghylch Anawsterau Llythrennedd (dyslecsia) a bod pryderon rhieni/gofalwyr yn cael eu cydnabod a'u datrys. Dylid ystyried y ddogfen hon fel canllaw a dylai staff ddefnyddio eu barn broffesiynol ac ystyried cyd-destun, polisïau a gweithdrefnau eu hysgol wrth benderfynu ar unrhyw gamau gweithredu penodol.

## CYFEIRIADAETH

British Psychological Society (BPS). (1999). Dyslexia, Literacy and Psychological Assessment. Leicester: BPS.

Elliot, C. D. (1998). Reply 1 in reaction to ‘Understanding and managing dyslexia’. Letter to the British Psychological Society Division of Educational and Child Psychology Newsletter, 84, 43-45.
Elliott, J.G. (2020) ‘It’s Time to Be Scientific About Dyslexia’. Reading Research Quarterly 55, 61-57. https://doi.org/10.1002/rrq.333

Ellis, N.C. and Hooper, A.M. (2001) Why learning to read is easier in Welsh than in English: Orthographic transparency effects evinced with frequency matched tests. Applied Pyscholinguistics, 22, 571-599

Hanley, J.R., Masterson, J., Spencer, L.H. and Evans, D (2004) How long do the transparent orthography last? An investigation of the prevalence of dyslexia in Welsh children at 10 years of age. Developmental Psychology 57(8), 1393-1410

Her Majesty’s Government. (2001). Education Act. London: HMSO.

Humphrey, N (2002) ‘Self-concept and self-esteem in developmental dyslexia’ Journal of Research in Special Educational Needs Volume2, Issue2

Kaufman, A. S. (1994). Intelligent Testing with the WISC-III. New York: Wiley.

Lopes, J. A. (2007). Prevalence and co morbidity of emotional behavioral and learning problems: a study of 7th-grade students. Education and Treatment of Children, 30(4), 165-181.

Pennington, B. F. (1999). Toward an integrated understanding of dyslexia: Genetic, neurological and cognitive mechanisms. Developmental Psychopathology 11, 629–54.

Place, M., Wilson, J., Martin, E., & Hulsmeier, J. (2000). The frequency of emotional and behavioural disturbance in an EBD school. Child Psychology & Psychiatry Review, 5(2), 76-80.

Rose, J. (2009). Identifying and Teaching Children and Young People with Dyslexia and Literacy Difficulties. London: DfES.

Shaywitz, B. A. (1994). Cognitive profiles of reading disability: Comparisons of discrepancy and low achievement definitions. Journal of Educational Psychology, 86, 6–23.

Siegel, L. S. (1999). Issues in the definition and diagnosis of learning disabilities. Journal of Learning Disabilities, 32(4), 304 - 319

Stanovich, K. (1994). Annotation: Does dyslexia exist? Journal of Child PsychoL Psychial. 35(4), 579-595.

Stanovich, K. & Stanovich, P. J. (1997). Further thoughts on aptitude /achievement discrepancy. Educational Psychology in Practice, 13(1), 3-8.

Stuebing, K. K., Fletcher, J. M. LeDoux, J. M., Lyon, G. R., Shaywitz, S. E. & Shaywitz, D. B. A. (2002).

Validity of IQ-discrepancy classifications of reading disabilities. American Educational Research Journal, 39, 469-518.

The Dyslexia-SpLD Trust. (2009). No To Failure. Bracknell: The Dyslexia SpLD
Trust.

Turner, M. (1997). Psychological Assessment of Dyslexia. London: Whurr.

Vellutino, F. R., Scanlon, D. M. & Lyon, G.R. (2000). Differentiating difficult-to-remediate and readily remediated poor readers: More evidence against the IQ-achievement discrepancy definition of reading disability. Journal of Learning Disabilities, 33, 223-238.

Llywodraeth Cymru (2012) Ymchwil i'r ddarpariaeth dyslecsia yng Nghymru: adolygiad llenyddiaeth ar gyflwr ymchwil i blant â dyslecsia. http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/researchandevaluation/research/?lang=cy

Llywodraeth Cymru (2013). Y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd: Cefnogi Ysgolion i Gyflwyno'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol. i-gefnogi-ysgolion-yn--y-fframwaith-cenedlaethol- llythrennedd a rhifedd.pdf (llyw.cymru)

Llywodraeth Cymru (2015). Fframwaith Anawsterau dysgu penodol

Llywodraeth Cymru (2021) Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru

Llywodraeth Cymru (2020) Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru)

